



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 767 (Cy.74)

2006 No. 767 (W.74)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod
o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd
Gwledydd) (Cymru) (Diwygio)
2006

The Products of Animal Origin
(Third Country Imports) (Wales)
(Amendment) Regulations
2006

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan VIII o Atodlen 1 i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/666) ("Rheoliadau 2005"). Mae Rheoliadau 2005 yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC sy'n gosod yr egwyddorion sy'n llywodraethu trefniadaeth gwiriadau milfeddygol ar gynhyrchion sy'n dod i'r Gymuned o drydydd gwledydd (OJ Rhif L24, 30.1.98, t.9).

These Regulations amend Part VIII of Schedule 1 to the Products of Animal Origin (Third Country Imports) (Wales) Regulations 2005 (SI 2005/666) ("the 2005 Regulations"). The 2005 Regulations implement Council Directive 97/78/EC laying down the principles governing the organisation of veterinary checks on products entering the Community from third countries (OJ No. L24, 30.1.98, p.9).

Diwygir Rhan VIII o Atodlen 1 er mwyn rhoi effaith i'r cyfyngiadau ar fewnforio cynhyrchion sy'n deillio o adar a geir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2005/760/EC ynghylch mesurau gwarchod penodol mewn perthynas â fflw adar pathogenig iawn mewn trydydd gwledydd penodol ar gyfer mewnforio adar dof (OJ Rhif L285, 28.10.2005, t.60) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2005/862/EC (OJ Rhif L317, 3.12.2005, t.19). Mewnsoedir cyfeiriadau at Benderfyniad y Comisiwn Rhif 2005/760/EC (fel y'i diwygiwyd) ym mharagraffau 3A ac 18 o Ran VIII o Atodlen 1.

Part VIII of Schedule 1 is amended in order to give effect to the restrictions on the importation of products derived from birds contained in Commission Decision 2005/760/EC concerning certain protection measures in relation to highly pathogenic avian influenza in certain third countries for the import of captive birds (OJ No. L285, 28.10.2005, p.60) as amended by Commission Decision 2005/862/EC (OJ No. L317, 3.12.2005, p.19). References to Commission Decision 2005/760/EC (as amended) are inserted at paragraphs 3A and 18 of Part VIII of Schedule 1.

Mae Atodlen 1 i Reoliadau 2005 yn rhestru offerynnau'r Gymuned sy'n gosod amodau ar gyfer mewnforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'r Gymuned. Mae Rheoliad 15 o Reoliadau 2005 yn gwahardd dod â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac nad ydynt yn cydymffurfio â'r amodau mewnforio hyn i Gymru.

Schedule 1 to the 2005 Regulations lists the Community instruments that lay down conditions for the importation of products of animal origin into the Community. Regulation 15 of the 2005 Regulations prohibits the introduction into Wales of products of animal origin that do not comply with these import conditions.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2005 (O.S. 2005/3395) (Cy.271).

Ni chafodd Arfarniad Rheoliadol ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn.

These Regulations revoke the Products of Animal Origin (Third Country Imports) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 (S.I. 2005/3395) (W.271).

A Regulatory Appraisal has not been prepared for these Regulations.

2006 Rhif 767 (Cy.74)**2006 No. 767 (W.74)****AMAETHYDDIAETH, CYMRU****AGRICULTURE, WALES****Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod
o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd
Gwledydd) (Cymru) (Diwygio)
2006****The Products of Animal Origin
(Third Country Imports) (Wales)
(Amendment) Regulations
2006***Wedi'u gwneud* 14 Mawrth 2006*Made* 14 March 2006*Yn dod i rym* 16 Mawrth 2006*Coming into force* 16 March 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(2) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

The National Assembly for Wales is designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to the common agricultural policy of the European Community.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn-

Exercising the powers conferred upon it by that section, the National Assembly for Wales makes the following Regulations-

Enwi, cymhwyso a chychwyn**Title, application and commencement**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2006; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 16 Mawrth 2006.

1. The title of these Regulations is the Products of Animal Origin (Third Country Imports) (Wales) (Amendment) Regulations 2006; they apply in relation to Wales and come into force on 16 March 2006.

**Diwygiadau i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o
Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd)
(Cymru) 2005****Amendments to the Products of Animal Origin
(Third Country Imports) (Wales) Regulations 2005**

2.-(1) Diwygier Rhan VIII o Atodlen 1 i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005 (3) yn unol â'r rheoliad hwn.

2.-(1) Amend Part VIII of Schedule 1 to the Products of Animal Origin (Third Country Imports) (Wales) Regulations 2005(3) in accordance with this regulation.

(2) Ar ôl paragraff 3 mewnosoder-

(2) After paragraph 3 insert-

"3A. Penderfyniad y Comisiwn 2005/760/EC ynghylch mesurau gwarchod penodol mewn perthynas â ffliw adar pathogenig iawn mewn trydydd gwledydd penodol ar gyfer mewnforio adar dof (OJ Rhif L285, 28.10.2005, t.60) (i'r

"3A. Commission Decision 2005/760/EC concerning certain protection measures in relation to highly pathogenic avian influenza in certain third countries for the import of captive birds (OJ No. L285, 28.10.2005, p.60) (in so far as it relates

(1) O.S. 2005/2766.

(2) 1972 p.68.

(3) O.S. 2005/666 (Cy.56).

(1) S.I. 2005/2766.

(2) 1972 c.68.

(3) S.I. 2005/666 (W.56).

graddau y mae'n ymwneud â chynhyrchion sy'n deillio o'r adar hynny), fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2005/862/EC (OJ Rhif L317, 3.12.2005, t.19)."

(3) Yn lle paragraff 18 rhodder-

"**18.** Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd ynghylch sgil-gynhyrchion anifeiliaid nas bwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl (OJ Rhif L273, 10.10.2002, t.1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 416/2005 (OJ Rhif. L66, 12.3.2005, t.10), ac fel y'i darllenir gyda Phenderfyniad y Comisiwn 2005/760/EC, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2005/862/EC (OJ Rhif L317, 3.12.2005, t.19)."

Dirymu

3. Dirymmer Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2005(1)

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(2)

14 Mawrth 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(1) O.S. 2005/3395 (Cy.271).

(2) 1998 p.38.

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00

W296/04/06

ON

to products derived from those birds), as amended by Commission Decision 2005/862/EC (OJ No. L317, 3.12.2005, p.19)."

(3) For paragraph 18 substitute-

"**18.** Regulation (EC) No. 1774/2002 of the European Parliament and of the Council laying down health rules concerning animal by-products not intended for human consumption (OJ No. L273, 10.10.2002, p.1) as last amended by Commission Regulation (EC) No. 416/2005 (OJ No. L66, 12.3.2005, p.10), and as read with Commission Decision 2005/760/EC, as amended by Commission Decision 2005/862/EC (OJ No. L317, 3.12.2005, p.19)."

Revocation

3. The Products of Animal Origin (Third Country Imports) (Wales) (Amendment) Regulations 2005(1) are revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(2)

14 March 2006

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) S.I. 2005/3395 (W.271).

(2) 1998 c.38.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.